

COFNODION

Dyddiad:	Dydd Mercher, 13 Mawrth 2002
Amser:	9.00am i 12.50pm
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgor 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Presennol:	Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
	Kirsty Williams (Cadeirydd) Aberhonddu a Sir Faesyfed
	Geraint Davies Rhondda
	Brian Gibbons Aberafan
	Brian Hancock Islwyn
	Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg
	Ann Jones Dyffryn Clwyd
	Dai Lloyd Gorllewin De Cymru
	David Melding Canol De Cymru
	Lynne Neagle Tor-faen
	Aelodau Eraill (Buddiant Etholaethol)
	Jonathan Morgan Canol De Cymru (Eitem 3 yn Unig)
	Cynog Dafis Canolbarth a Gorllewin Cymru (Eitem 5 yn Unig)
	Yn Bresennol
	Yr Arglwydd Carlile o Aberriw CF Cadeirydd yr Adolygiad ar Gamau Diogelu i Blant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth neu Ofal gan y GIG yng Nghymru
	Kathleen Brown Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
	Dorothi Clowes Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
	Swyddogion
	Chris Burdett Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
	Dr Ruth Hall Prif Swyddog Meddygol
	Ann Lloyd Cyfarwyddwraig, GIG yng Nghymru
	Peter Lawler Yr Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol
	Maria Michael Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
	Mike Shanahan Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol
	Graham Williams Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
	Ysgrifenyddiaeth:
	Jane Westlake Clerc y Pwyllgor
	Claire Morris Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Gwenda Thomas, a wahoddwyd i gynrychioli buddiannau'r Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Thai ar gyfer eitem 5.

1.2 Atgoffwyd yr Aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Gibbons, ymarferydd meddygol cofrestredig ac yn briod â gweithiwr cymdeithasol ym maes gofal plant;
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Eitem 2: Adroddiad ar yr Adolygiad o Gamau Diogelu i Blant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan y GIG yng Nghymru

Papurau: HSS-07-02(p.1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Arglwydd Carlile o Aberriw, CF, Cadeirydd panel yr adolygiad.

2.2 Diolchodd yr Arglwydd Carlile i'r Cynulliad am roi cyfle iddo ymgymryd ag ymarfer mor werthfawr a boddhaus a hefyd i'r Gweinidog, ei swyddogion ac aelodau'r panel am eu cymorth. Bu'r adolygiad yn eang iawn ei gwmpas a gobeithiai y byddai'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ddefnyddiol wrth gynnal adolygiadau polisi eraill.

2.3 Er mai'r ddelfryd fyddai cynhyrchu adroddiad a fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw achosion o gam-drin yn digwydd o fewn y GIG, cydnabuwyd y byddai hyn yn amhosibl i'w gyflawni gan y byddai yna bobl bob amser a fyddai'n llwyddo i osgoi unrhyw ffurf ar ddiogelwch a fyddai'n eu rhwystro. Fodd bynnag, daeth y panel i'r casgliad bod llawer y gellid ei wneud i atal y mathau hynny o bobl rhag ymuno â'r Gwasanaeth drwy oruchwylio, polisiâu da ac arfer gorau. Roedd polisiâu da ar waith yng Nghymru, gyda'r broblem fwyaf yn deillio o'u cydlynu a'u gweithredu. Dylid sefydlu polisi ac arfer safonol y gellid eu deall ledled Cymru. Dylai'r Cynulliad dderbyn cyfrifoldeb dros ddiogelu plant yng Nghymru.

2.4 Synnwyd y panel ar adegau wrth gynnal yr adolygiad. Er enghraifft, o ran meddygon teulu, roedd gan rai ardaloedd bolisiâu diogelu plant ardderchog ar waith ond mewn ardaloedd eraill nid oedd unrhyw bolisiâu o'r fath. Roedd optometryddion yn archwilio plant mewn ystafell dywyll yn aml heb riant neu warcheidwad yn bresennol, ond nid oedd ganddynt unrhyw bolisi diogelu plant penodol.

2.5 Amlygodd yr Arglwydd Carlile y pedwar prif faes i weithredu arnynt:

- Cael gwarded ar yr elfennau a achosodd syndod. Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol ynghlwm wrth hyn gan mai mater syml ydoedd o ddweud wrth bobl broffesiynol fod angen iddynt wella eu harferion gwaith. Byddai angen cymorth gan gyrff proffesiynol perthnasol, e.e. y Cyngor Meddygol Cyffredinol.
- Rhannu gwybodaeth yn briodol. Roedd Pennod 6 yr adroddiad yn cynnwys templed ar gyfer pobl broffesiynol yn nodi'r math o wybodaeth y gallent ei rhannu pe byddent o'r farn bod plentyn

mewn perygl. Cynhwyswyd canllaw i'r gyfraith hefyd yn Atodiad 8. Yn y pen draw, pe ystyriwyd bod plentyn mewn perygl, nid oedd yn anghywir rhannu gwybodaeth.

- Arferion ar gyfer cyflogi staff newydd. Roedd rhywfaint o ddryswch o ran cyfraith cyflogaeth. Roedd rhai pobl broffesiynol ym maes adnoddau dynol o'r farn mai dim ond ar ôl cynnig swydd y gellid gofyn am eirida personol. Nid oedd hynny'n wir ac argymhellwyd y dylai arferion cyflogaeth gynnwys gofyn am eirida cyn cynnig swydd.
- Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Cymeradwywyd y gwaith o weithredu'r Strategaeth ac fe'i nodwyd fel blaenoriaeth gan yr adolygiad. Roedd y ddeddf gofal gwrthgyfartal yn datgan mai'r rheini â'r angen mwyaf oedd yn derbyn y lleiaf ac nid oedd unrhyw grŵp a oedd yn fwy diamddiffyn na phlant â salwch meddwl.

2.6 Mewn ymateb i sylwadau gan yr Aelodau, gwnaeth yr Arglwydd Carlile y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Ni ofynnwyd i'r grŵp gynnal unrhyw asesiad economaidd o'i argymhellion.
- Argymhellwyd yn gryf y dylid atgyfnerthu'r gwasanaeth nyrsys ysgol a nodwyd y gallai arbed swm sylweddol o arian yn yr hir dymor o ran darparu gwasanaethau eilaidd. Roedd tystiolaeth bod nyrsys ysgol yn gadael y gwasanaeth er mwyn datblygu eu gyrfaedd a chael gwell cyflogau.
- Roedd gwasanaethau eiriolaeth yn angenrheidiol ac yn werth da am arian. Roedd annibyniaeth yn bwysig iawn ac ystyriwyd y byddai perygl i wasanaeth eiriolaeth cenedlaethol ddod yn fiwrocraidaidd ac yn rhwym gan reolau. Nid oedd yn briodol ychwaith iddynt gael eu gweinyddu gan Brif Weithredwr ymddiriedolaeth, a allai hyd yn oed fynd yn groes i'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ystyriwyd mai eiriolaeth wedi'i threfnu drwy'r sector gwirfoddol oedd y ffordd orau o ddarparu gwasanaeth annibynnol a gellid trefnu hyn ar raddfa fach.
- Cydnabuwyd yr angen i ddiogelu pobl a oedd yn datgelu cyfrinachau.
- Roedd gwahardd yn rhan angenrheidiol o unrhyw ymchwiliad. Cydnabuwyd bod stigma ynghlwm wrth y term, ond nid oedd dewis amgen addas yn amlwg.
- Dylai gweithdrefn gadarn alluogi i ymchwiliadau gael eu cynnal ar lefel briodol.
- Ni fu gwasanaethau iechyd i blant yn y carchar yn rhan o'r adolygiad.
- Roedd cymwysterau yn darparu nod barcud angenrheidiol i bobl broffesiynol.
- Yn anffodus nid oedd llawer y gellid ei wneud ar hyn o bryd i atal pobl a oedd yn anaddas o ran eu cymeriad rhag dod yn glinigwyr, ond nododd yr adroddiad bod angen ymdrin â'r maes hwn.
- Roedd gan blant â salwch seiciatregol gyfle da iawn o wella'n llawn ond heb fynediad i wasanaethau iechyd meddwl priodol roedd problemau'n cael eu creu ar gyfer y dyfodol.

2.7 Nododd y Gweinidog y byddai ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Carlile yn cael ei drafod mewn cyfarfod llawn ym mis Ebrill ac y sefydlwyd grŵp i weithio drwy'r cynigion ar gyfer gweithredu llawer o'r argymhellion. Roedd sawl un ohonynt eisoes yn cael eu datblygu ac roedd yn fater o ddod â pholisïau presennol a oedd yn ymwneud ag anghenion plant ynghyd. Roedd y Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn allweddol yn hyn o beth a byddai llawer o'r argymhellion yn dod i'r amlwg wrth weithredu'r strategaeth hon. Byddai hefyd angen ei gysylltu â'r broses o ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant. Roedd darparu gwasanaethau eiriolaeth eisoes yn cael ei ystyried, gyda nifer o gynlluniau peilot ar waith ledled Cymru, a byddai argymhellion Adroddiad Carlile

yn bwydo i'r broses hon. Roedd canllawiau ar gydweithio i ddiogelu plant wedi'u sefydlu ond roedd angen eglurdeb o ran cwynion a gweithdrefnau ac roedd hyn yn flaenoriaeth uchel iawn.

2.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r Arglwydd Carlile am ei waith ar yr adolygiad ac am fynychu'r Pwyllgor.

Eitem 3: Adroddiad Misol y Gweinidog

Papur: HSS-07-02(p.2)

3.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar Gartref Hazelcroft yng Nghaerdydd. Atodir copi yn Atodiad A.

3.2 Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau ar y datganiad, nododd y Gweinidog fod Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (SSIW) wrthi'n adolygu'r deunydd o ran y gofal yn Hazelcroft, a oedd yn cynnwys adroddiadau gan uned arolygu Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd Cyngor Dinas Caerdydd wrthi'n cynnal ei ymchwiliad ei hun i'r trefniadau staff a'r materion o ran personél ac roedd wedi cyflogi Eversheds i oruchwylio'r broses. Byddai copïau o'u hadroddiad ar gael i'r Cynulliad.

3.3 Nododd Graham Williams, Prif Arolygydd Cymru, fod pwerau'r SSIW yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau awdurdod lleol. Mater i'r cyflogwr oedd trin materion disgyblu yn y lle cyntaf. Roedd cwestiynau'n dechrau dod i'r amlwg ynghylch natur y contract rhwng Cyngor Dinas Caerdydd a Chymdeithas Tai Hafod a ph'un a oedd yn ddigon clir o ran atebolrwydd.

3.4 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar Grŵp Strategaeth Gofal Cymru. Atodir copi yn Atodiad B.

3.5 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau ar y datganiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gadarnhau nifer y llefydd a oedd ar gael mewn cartrefi nyrsio ledled Cymru. Byddai'r canlyniadau ar gael i'r Aelodau.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ehangu aelodaeth y grŵp strategaeth i gynnwys cynrychiolwyr Undebau Llafur.
- Byddai'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gofal ond nid o reidrwydd Fforwm Gofal Cymru.

3.6 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiad misol, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y broses o gomisiynu gwasanaethau ambiwlans yn cael ei hystyried fel rhan o'r strategaeth gweithredu ar gyfer ailstrwythuro'r GIG a byddai adroddiad ar gynnydd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor maes o law.
- Byddai cais yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Gorchwyl Amseroedd Aros i ystyried amseroedd aros ar gyfer angiogramau ac effaith y cyfleusterau newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru.
- Yn Lloegr, roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiwygio'r Rheoliadau Cartrefi Gofal fel y byddai'n ofynnol i gartrefi nyrsio ddarparu dadansoddiad o'u ffioedd, gan fod sawl un wedi'u cynyddu yn

sgîl cyflwyno gofal nyrsio am ddim. Nid oedd y broblem cynddrwg yng Nghymru yn sgîl cyflwyno cyfradd unffurf o £100, ond byddai'r digwyddiadau yn Lloegr yn cael eu monitro ac adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

- Hyd nes y cyhoeddwyd argymhellion a chanllawiau gan NICE ar gyffuriau newydd, penderfyniad awdurdodau iechyd unigol oedd dewis a fyddent yn eu darparu ar bresgripsiwn ai peidio. Roedd y sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Meddygol bod NICE yn ymwybodol o'r broblem a'i fod yn ceisio dod o hyd i ffordd o ddarparu canllawiau cyn cyflwyno cyffuriau newydd ond y byddai hynny beth amser yn y dyfodol.
- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar drefniadau'r gwasanaeth iechyd a oedd ar waith yn y cyfleuster diogel i ieuencid yng Ngharchar Parc EM.
- Ni fyddai darparu chwe wythnos o gymorth yn y cartref i bobl ddiamddiffyn yn effeithio ar fuddaliadau eraill y wladwriaeth, megis Lwfans Gweini, yr oeddent yn eu cael.
- Byddai'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad o ran a fyddai Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn darparu gofal seibiant.
- Roedd awdurdodau iechyd yn gwario mwy na'r 0.4% a oedd yn ofynnol ar gamddefnyddio sylweddau. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu ar i ba raddau yr oedd yr angen yn cael ei ddiwallu.

3.7 Gwnaeth Ann Lloyd y pwyntiau canlynol:

- Byddai costau'r broses o ailstrwythuro'r GIG ar gael ar ddiwedd mis Mawrth.
- Roedd y wybodaeth a ddarparwyd ar wasanaethau canser yn cael ei dadansoddi a dylai adroddiad fod ar gael ym mis Ebrill.

3.8 Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wrthi'n datblygu gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth. Gofynnodd yr Aelodau am nodyn esboniadol ar reoliadau rhifau 23, 24, 25, 36, 37, 59, 60, 61, 66, 72 a 77 i'w galluogi i benderfynu a oedd angen i'r Pwyllgor eu hystyried.

3.9 Awgrymodd y Cadeirydd efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried ymweld â'r cyfleuster i ieuencid yng Ngharchar Parc EM fel rhan o adolygiad y Pwyllgor o wasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig a gofynnodd iddynt roi gwybod i'r Clerc pe byddai ganddynt ddiddordeb mewn ymweliad o'r fath.

Gweithredu

- Byddai canlyniadau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gadarnhau nifer y llefydd mewn cartrefi nyrsio ledled Cymru yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau.
- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddigwyddiadau yn Lloegr mewn perthynas â'r Rheoliadau Cartrefi Gofal yn cael ei ddarparu.
- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar drefniadau'r gwasanaeth iechyd yn y cyfleuster diogel i ieuencid yng Ngharchar Parc EM.
- Byddai'r Aelodau yn rhoi gwybod i'r Clerc pe byddent am ymweld â Charchar Parc EM.

- Byddai'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad o ran y ddarpariaeth gofal seibiant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
- Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu ar ddefnyddio grantiau camddefnyddio sylweddau.
- Byddai nodyn esboniadol yn cael ei baratoi ar y rheoliadau a nodwyd (gweler paragraff 3.8).

Eitem 4: Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol

Papur: HSS-07-02(p.3)

4.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Meddygol ei hadroddiad gan amlygu rhai materion arwyddocaol.

- Afiechyd cylchredol a chanser oedd y prif achosion o farwolaeth o hyd, gyda chanser yn achosi'r nifer uchaf o farwolaethau cynamserol mesuredig o ran nifer y blynyddoedd posibl o fywyd a gollwyd.
- Roedd Dr Hall yn cadeirio gweithgor arbenigol yn adolygu'r targedau ar gyfer 2002 i 2007, gan ddefnyddio'r profiad a gafwyd ers 1997 fel sail i'r gwaith.
- Roedd angen ymdrech benodol gan yr holl asiantaethau er mwyn cyflawni gwelliannau sylweddol mewn iechyd.
- Roedd y rhaniad iechyd rhwng unigolion mwy llewyrchus a rhai difreintiedig yn cynyddu wrth i iechyd pobl fwy cyfoethog wella.
- Roedd angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy well tai, adfywio cymunedol ac ysgolion iach yn ogystal â thrwy fentrau iechyd.
- Roedd pryder ynghylch y cynnydd mewn heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol ac roedd ymgyrch ar waith i godi ymwybyddiaeth. Roedd yr ymgyrch wedi cyrraedd ei hail gam lle y byddai'n targedu clamidia.
- Roedd nifer y merched yn eu harddegau a oedd yn beichiogi wedi gostwng rhwng 1998 a 2000.
- Ysmygu oedd yr achos unigol mwyaf o salwch a marwolaeth gynnar.

4.2 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr aelodau, gwnaeth Dr Hall y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd yn syndod na wnaed mwy o gynnydd yn erbyn rhai o'r targedau yn y cyfnod byr ers eu sefydlu a bu cynnydd mewn rhai meysydd anodd.
- Roedd angen gosod targedau yn wyddonol ac yn realistig a byddai'r Grŵp Arbenigol yn rhoi cyngor yn hynny o beth.
- Byddai llwyddiant y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd yn cael ei werthuso ar sail prosiectau unigol ac yn gyffredinol.
- Roedd angen i bob oedolyn, nid dim ond ysmygwyr, fod yn ymwybodol o fentrau gwrth smygu a rhoi'r gorau i smygu. Roedd yn rhaid targedu ymdrechion ar atal a rhwystro pobl yn eu harddegau rhag ysmygu.
- Roedd yn rhaid i fesurau i hybu iechyd rhywiol fod yn hygyrch ac yn amlwg i'r gynulleidfa a dargedir.
- Roedd y Prif Swyddog Meddygol yn rhannu'r pryder ynghylch damweiniau i blant a gordewdra ymhlith yr ifanc.

4.3 Gohiriwyd trafodaeth bellach ar yr adroddiad hyd nes cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Eitem 5: Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig

Papur: HSS-07-01(p.4)

5.1 Bu'r Pwyllgor yn pryderu na dderbyniwyd unrhyw ymateb ysgrifenedig i'r ymarfer ymgynghori gan y proffesiwn Therapi Lleferydd ac Iaith. Roedd llawer o'r rheini a ymatebodd yn ysgrifenedig ac a roddodd dystiolaeth lafar wedi cyfeirio at y problemau a oedd yn gysylltiedig â diffyg o ran darpariaeth therapi lleferydd ac iaith. Cyflwynodd y Cadeirydd Kathleen Brown a Dorothe Clowes gan hysbysu'r Pwyllgor y paratowyd y papur fel cyfraniad i ymateb gan gorff proffesiynol ond nas datblygwyd gan y corff hwnnw.

5.2 Nododd Dorothe Clowes ei bod yn anodd gwahanu gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion. Dangosodd y ffigurau diweddaraf fod 236 o therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru. Nododd argymhellion yn 1989 y dylid cael 26 o therapyddion ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth. Yn ôl y dybiaeth honno, roedd diffyg o 517 ar hyn o bryd. Roedd y baich achosion unigol yn 141 ar gyfartaledd yn erbyn ffigwr a argymhellwyd o 44. Roedd y baich achosion yn amrywio o un therapydd i 44 i un i 246 o gleientiaid.

5.3 Nododd Kathleen Brown fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn nifer o wahanol fathau o leoliadau. Roedd y gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau i blant â datganiad o anghenion addysgol arbennig a mentrau megis Cychwyn Cadarn wedi creu beichiau ychwanegol a oedd yn ei gwneud hi'n anos diwallu anghenion plant prif ffrwd.

5.4 Datganodd David Melding fuddiant fel Cadeirydd Llywodraethwyr ysgol arbennig a datganodd Brian Gibbons iddo dderbyn cymorth gan MSF. Ymatebodd Ms Brown a Ms Clowes i gwestiynau gan yr aelodau fel a ganlyn:

- Nid oedd digon o lefydd hyfforddi i therapyddion lleferydd ac mae'n bosibl na fyddai darpar israddedigion yn ei ystyried ar gyfer eu gradd gyntaf.
- Roedd angen mwy o hyfforddiant hefyd i ôl-raddedigion a byddai'n haws llenwi llefydd hyfforddi i ôl-raddedigion.
- Gellid ymgymryd â rhai mathau o hyfforddiant o bellter, ond roedd llawer o'r dysgu mewn lleoliad clinigol.
- Roedd y prinder staff cymwys yn ychwanegu at yr anawsterau o ran hyfforddi a datblygu therapyddion lleferydd ac iaith newydd.
- Yn y lleoliad addysgol, roedd therapyddion lleferydd ac iaith yn teimlo o dan anfantais oherwydd cyflogau is a llai o wyliau na'u cydweithwyr addysgu.
- Roedd llawer o therapyddion lleferydd yn ferched a oedd yn rhoi'r gorau i'r gwaith er mwyn magu teulu.
- Roedd swyddi gwag yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith. Dangosodd ymchwil ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon dros dri mis yn 1999 mai dim

ond 50% o'r 276 o swyddi gwag a hysbysebwyd a lenwyd.

- Roedd angen rhannu cyfrifoldeb rhwng awdurdodau iechyd ac addysg. Roedd gan y sectorau wahanol flaenoriaethau, ond roedd enghreifftiau o arfer da wrth gydweithredu.
- Gallai sefydlu swyddi datblygu wella'r strwythur gyrfaedd a chadw staff, ond byddai goblygiadau ariannol i hynny.

Cydnabu'r Gweinidog y diffyg o ran y capasiti cyfredol yn y gwasanaeth. Dangosodd cynlluniau gweithlu Ymddiriedolaethau'r GIG fod angen 541 o therapyddion lleferydd ac iaith ychwanegol erbyn 2005, ond nifer y myfyrwyr y disgwyliwyd iddynt gymhwyso erbyn hynny oedd 120.

Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod ar 27 Chwefror 2002

Papur : HSS-06-02(min)

6.1 Derbyniwyd y cofnodion. Byddai'r Gweinidog yn dosbarthu'r wybodaeth ar y Cynllun Grantiau Gofalwyr.

Gweithredu gan y Gweinidog.

Eitem 7: Papurau i'w Nodi Diogelwch Gwaed a Chynnyrch Gwaed

Papur : HSS-07-02(p.5)

7.1 Gofynnodd Dai Lloyd a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn esiampl yr Alban gan ystyried rhoi iawndal i bobl a heintwyd gan gynnyrch gwaed lle nad oedd y GIG ar fai.

7.2 Nododd y Gweinidog y byddai'n edrych ar ganfyddiadau grŵp yr Alban. Roedd wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar wasanaethau i hemoffiligion a byddai'n cyflwyno adroddiad ar hyn.

7.3 Roedd gan Kirsty Williams a Brian Hancock bwyntiau i'w codi ond byddent yn ysgrifennu at y Gweinidog.

Unrhyw Fusnes Arall

8.1 Cwestiynodd David Melding y ffigurau a ddyfynnwyd gan y Gweinidog yn gynharach yn y cyfarfod o ran nifer y llefydd a oedd ar gael mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru a oedd, yn ei farn ef, yn gwrthdaro â'r ystadegau a gyhoeddwyd.

Atodiad A

**ARCHWILIAD GAN AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU O'R
TREFNIADAU AR GYFER DIOGELU A DIWALLU ANGHENION GOFAL GAN GAERDYDD
A BRO MORGANNWG AR GYFER TRIGOLION YNG NGHARTREFI HAFOD**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y camau sydd ar waith yn dilyn pryderon a godwyd gyda mi ac o fewn Cyfarfod Llawn am y gofal yng Nghartref Hazelcroft yng Nghaerdydd. Mae'r cartref hwn bellach wedi cau ac mae'r trigolion wedi symud i gartrefi eraill yn yr ardal. Darparwyd y Cartref ar sail cytundeb contract rhwng Cyngor Dinas Caerdydd a Chymdeithas Tai Hafod lle y darparwyd yr adeilad gan Hafod a'r Gwasanaethau Gofal gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Bu'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn adolygu deunydd ynghylch y gofal yn Hazelcroft gan gynnwys adroddiadau gan uned arolygu Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn sgîl yr adolygiad hwn codwyd cwestiynau o ran a oedd y trefniadau a oedd ar waith rhwng Caerdydd a Chymdeithas Tai Hafod mewn perthynas â Hazelcroft yn ddigonol i sicrhau bod anghenion y trigolion o ran diogelwch a chymorth yn cael eu diwallu.

Er bod y pryderon a fynegwyd yn canolbwyntio ar Hazelcroft, mae cartrefi eraill yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r un trefniadau rhwng yr awdurdodau a Hafod. O ganlyniad, gofynnais i Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru archwilio'r trefniadau hyn yn fanylach er mwyn cadarnhau a oes angen eu hatgyfnerthu a gwneud argymhellion o ran gweithredu hyn. Hoffwn i unrhyw wersi y gellid eu dysgu o archwiliad yr Arolygiaeth gael eu cymhwyso'n gyffredinol. Cwmpas yr archwiliad fydd:

- natur y contract rhwng Caerdydd, Bro Morgannwg a Hafod er mwyn gweld a yw'r cyfrifoldebau o ran lles y trigolion yn glir ac yn gyson ag unrhyw ofynion o dan ddeddfwriaeth Gofal Cymunedol a Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984;
- trefniadau diogelu'r awdurdodau;
- eu trefniadau ar gyfer ymchwilio i gwynion mewn perthynas â gofal.

Cyhoeddir adroddiad ar ganlyniad yr archwiliad hwn yr hysbysaf y Pwyllgor yn ei gylch.

Atodiad B

GRŨP STRATEGAETH GOFAL CYMRU

Hoffwn wneud datganiad ar Grŵp Strategaeth Gofal Cymru a rhai materion cysylltiedig.

Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gynllunio a darparu neu gomisiynu gwasanaethau gofal, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl strategol wrth helpu i sicrhau sector cartrefi gofal hyderus, hyblyg a dichonadwy ar gyfer y dyfodol ac wrth helpu i sicrhau bod gwasanaethau dichonadwy ar waith i gynorthwyo pobl ddiamddiffyn.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr cartrefi gofal annibynnol cyfrifol yn bwysig iawn, i'r unigolion sy'n byw yn y sector hwn ac o ran cyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol yng Nghymru.

Cofnodwyd anawsterau o ran dichonoldeb o fewn y sector ledled Prydain dros y misoedd diwethaf, ac mae'r rheini'n effeithio ar Gymru. Lle y ceir problemau, mae'n bwysig iddynt gael eu datrys drwy drafodaethau a negodi cadarnhaol rhwng darparwyr lleol a chomisiynwyr lleol eu gwasanaethau.

Yn ddiweddar bu'r broses hon yn un anos o lawer mewn nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol, lle y cyflwynodd nifer o ddarparwyr cartrefi gofal ofynion na ellid eu negodi o ran cynyddu ffioedd, a oedd yn llawer uwch na gallu'r cyngor i dalu. Mae'r datblygiadau hyn yn ychwanegu brys newydd i'r cyhoeddiad a wnaed gennyf yn y ddadl yn y cyfarfod llawn ar yr Isafswm Safonau Cenedlaethol a Rheoliadau'r Ddeddf Safonau Gofal ar 12fed Chwefror lle y cyhoeddais y byddwn yn sefydlu Grŵp Strategaeth Gofal Cymru.

Hoffwn yn awr ddarparu mwy o fanylion i'r Pwyllgor am y Grŵp newydd a fydd yn cynnwys pawb o amgylch y bwrdd i gynllunio'n adeiladol ar gyfer y dyfodol. Mae angen i ni achub ar y cyfle hwn, ond gadewch i mi fod yn glir, o'r cychwyn cyntaf, ei fod yn gyfle lle y bydd yn rhaid i bob plaid ddod i'r bwrdd yn agored ac heb unrhyw ragamodau.

Sefydli'r grŵp newydd fel grŵp gorchwyl a gorffen ymgynghorol. Ei nodau fydd:

- darparu ffocws Cymru gyfan ar gyfer trafodaethau am ddyfodol y "sector gofal" yn gyffredinol (gofal preswyl, gofal cartref a gwasanaethau gofal a ddarperir yn ychwanegol at dai)
- gweithredu fel ffynhonnell cyngor ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar:
- datblygiad strategol y "sector gofal" yn y tymor canolig er mwyn sicrhau diwydiant dichonadwy, hyderus ac ymatebol i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd; a
- ffyrdd o ymdrin â'r problemau tymor byrrach sy'n effeithio ar y "sector gofal" ar hyn o bryd.

Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Iechyd, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Cyngor Gofal Cymru, perchenogion cartrefi unigol, cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol yn cynnig safbwyntiau defnyddwyr a gofalwyr, Cyfarwyddwr Tai awdurdod lleol a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru. Bydd hefyd yn cynnwys Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o is-adrannau polisi perthnasol a chyrrff a noddir gan y Cynulliad. Bwriadaf gadeirio'r cyfarfod cyntaf a gynlluniwyd ar gyfer 21ain Mawrth.

Disgwyliaf iddo gyfarfod dair gwaith rhwng nawr a mis Ionawr nesaf. Byddaf yn adolygu'r rhaglen waith ac amllder y cyfarfodydd ar drothwy'r flwyddyn.

Ymhlith tasgau cynnar y Grŵp bydd:

- Mapio a dadansoddi nodweddion allweddol "glasbrint" ar gyfer datblygu ansawdd uchel a chynladwyedd o fewn y Sector Gofal yng Nghymru erbyn 2010;
- Cyngor ar ddatblygu tuag at fodolau gofal newydd, mwy hyblyg a'r camau gweithredu i reoli newid er mwyn trosglwyddo'n effeithiol;

- Cyngor ar ddatblygu camau gweithredu i ymdrin â'r problemau o ran Gweithlu a Hyfforddiant a gwmpaswyd yn Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Arolygydd;
- Cyngor ar Arweiniad Statudol drafft ar Gomisiynu a Chontractio gofal gan Awdurdodau Lleol gan gynnwys monitro'r ddarpariaeth a thueddiadau yn y sector, defnyddio modelau costio gofal a ddatblygwyd yn fasnachol;
- Cyngor ar ddatblygu fframwaith ar gyfer defnyddio rheoleiddio ac arolygu yn ddoeth i godi ansawdd y gofal.

Cyflwynaf adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd gwaith y Grŵp.

Bydd angen i'r cynllun gwaith hwn gyd-redeg â gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ar wella'r prosesau ar gyfer monitro'r patrymau a'r tueddiadau wrth ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys anghenion hyfforddiant a datblygu busnes y sector gofal yn gyffredinol, darparu arian ychwanegol i awdurdodau lleol i gydnabod y pwysau ar y sector ac i helpu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, y safonau cenedlaethol newydd a chofrestru ac arolygu annibynnol drwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

Cydnabyddaf, wrth gwrs, fod gan arian ran sylweddol i'w chwarae wrth sefydlogi a gwella'r patrwm gofal, ac yn arbennig y cyfraniad a wna'r sector gofal cymdeithasol yn gyffredinol i ddatrys yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Rhaid i gomisiynu yn y maes polisi hwn fod yn rhan o ymagwedd system-gyfan. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio gyda'r GIG a chartrefi gofal i atgyfnerthu eu cynlluniau a'r canlyniadau a gyflawnir yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £10m dros 2 flynedd i gynorthwyo â'r broses hon. Yn awr gallaf gyhoeddi fy mod yn cynyddu'r arian ar gyfer y flwyddyn nesaf i £12m, cyfanswm o £17m dros y ddwy flynedd. O ran y flwyddyn gyfredol, byddai'r arian ar ffurf grant penodol a fyddai ar gael er mwyn:

- lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal drwy hwyluso'r broses o ryddhau o'r GIG i leoliadau cartrefi gofal nyrsio neu breswyl neu i gartref y person ei hun gyda chymorth gwasanaethau gofal cartref;
- helpu i atgyfnerthu'r sector cartrefi gofal o fewn y system gofal gyfan; ac ochr yn ochr â hyn gwaith ar yr isafswm safonau a sefydlu un rheoleiddiwr annibynnol i helpu i gyflwyno gwell safonau;
- lleihau derbyniadau i ysbytai y gellid eu hosgoi.

O ran y flwyddyn gyfredol, disgwyliaf hefyd i gynlluniau gweithredu awdurdodau lleol o ran oedi wrth drosglwyddo gofal gyflawni gostyngiad y cytunir arno o ran oedi wrth drosglwyddo gofal.

Mae'r cynnydd sylweddol pellach hwn o ran yr arian sydd ar gael at y dibenion hyn yn brawf ychwanegol, pe bai ei angen arnom, o'r difrifoldeb a rydd y weinyddiaeth hon i ymdrin â sefyllfa bresennol y sector gofal cymdeithasol a phreswyl. Hoffwn gloi yn erbyn y cefndir hwn drwy bwysleisio pwysigrwydd cynnwys darparwyr y sector annibynnol yn yr ymdrech strategaeth hon. Fodd bynnag, ni

all fod yn rhesymol i ddarparwyr y sector preifat geisio rôl o ran cynllunio strategol ar y lefel genedlaethol tra'n dal yn ôl rhag cynnal negodiadau cyfrifol ar y lefel leol. Rhaid i mi egluro na fyddaf yn ymestyn aelodaeth y Grŵp Strategaeth i'r rheini sy'n ymwneud â chyflwyno hysbysiadau i awdurdodau lleol y bydd gwasanaethau yn cael eu dileu. Galwaf yn uniongyrchol ar y darparwyr hynny sydd wedi ceisio rhoi pwysau ar rai awdurdodau lleol yn y fath fodd i ddiddymu'r hysbysiadau hyn.

Yr unig ffordd ymlaen yw i faterion gael eu datrys drwy negodi priodol rhwng darparwyr lleol a chomisiynwyr lleol heb fygythiadau a rhagamodau.

Fy mwriad amlwg yw y caiff gwaith y Grŵp Strategaeth ei gyflawni mewn ffordd adeiladol a blaengar, ac edrychaf ymlaen at weld pob cyfranogwr yn ymuno yn yr un ysbryd hwnnw.